# Y Mall






Y Mall yw'r ystafell â waliau gwydr ym mlaen Creu Taliesin. Mae digon o le i 60 o bobl yn yr ystafell sydd â charpedi ar y llawr a gellir ei hynysu o weddill y llawr gwaelod drwy gau dau ddrws llithro gwydr. Mae nifer o fyrddau a chadeiriau yn y Mall. Mae'n hawdd plygu'r byrddau a'u rhoi o’r neilltu os oes angen mwy o le i ddefnyddio’r llawr

Mae mynediad i gadeiriau olwyn tua chefn yr ystafell.

Mae taflunydd wedi'i osod ar y nenfwd a cheir sgrin daflunio y gellir ei thynnu'n ôl:






Does dim cyfrifiadur personol yn yr ystafell ond gellir plygio dyfais symudol (gliniadur, er enghraifft) i mewn i soced gan ddefnyddio cebl HDMI neu VGA.  Nid yw'r ceblau hyn yn cael eu cadw yn yr ystafell, ond gallwch wneud cais ymlaen llaw i'w benthyca gennym ar gyfer eich digwyddiad.

Rheolir system y taflunydd drwy ddyfais botymau gwasgu syml sydd wedi'i gosod yn agos at y sgrin daflunio (On, Off, Volume, HDMI a VGA). Wrth i chi ddewis y botwm 'ON' ar y rheolydd, bydd y sgrin daflunio'n gostwng a bydd y taflunydd yn dechrau gweithio. Mae dolen sain yn yr ystafell.

Mae'r Mall ar restr o leoliadau Arlwyo'r Campws a gallant gyflenwi lluniaeth yma.

I wirio bod yr ystafell ar gael ac i'w neilltuo, ewch i: https://swansea-uk.libcal.com/booking/TaliesinCreate

I drafod gofynion eich digwyddiad neu'ch gweithgaredd, cysylltwch â Swyddog Rhaglen Greadigrwydd Creu Taliesin, Reg Noyes: r.a.noyes@abertawe.ac.uk

# Y Stiwdio





Y Stiwdio yw lleoliad ar ffurf amffitheatr Creu Taliesin. Mae ganddi lawr finyl a rhesau o feinciau, yn ogystal â nifer o gadeiriau y gellir eu symud. Mae digon o le i 60 o bobl yn y Stiwdio a cheir mynediad i gadeiriau olwyn tua chefn yr ystafell (ger y Ganolfan Eifftaidd).

Yn wahanol i'r Mall, does dim modd ynysu'r Stiwdio o weddill Creu Taliesin. Felly, mae'n lle agored a hyblyg, lle gall pobl ddod a mynd, ymuno yn y gweithgarwch a gadael; mae'n berffaith ar gyfer perfformiadau, gweithdai a gweithgareddau.

I wneud y lle hyd yn oed yn fwy hyblyg, mae'r Stiwdio wedi'i gwahanu o weddill Creu Taliesin gan ddwy wal y gellir eu tynnu'n ôl, â byrddau symudol. Gellir defnyddio'r byrddau hyn i wneud wal er mwyn creu ymdeimlad mwy caeedig ar gyfer digwyddiadau, neu eu gwthio o'r neilltu i agor y lle a chynyddu maint ardal y balconi.

Mae gan y Stiwdio daflunydd wedi'i osod ar y nenfwd a sgrin daflunio y gellir ei thynnu yn ôl:






Does dim cyfrifiadur personol yn yr ystafell ond gellir plygio dyfais symudol (gliniadur, er enghraifft) i mewn i soced gan ddefnyddio cebl HDMI neu VGA.  Nid yw'r ceblau hyn yn cael eu cadw yn yr ystafell, ond gallwch wneud cais ymlaen llaw i'w benthyca gennym ar gyfer eich digwyddiad.

Rheolir system y taflunydd drwy ddyfais botymau gwasgu syml sydd wedi'i gosod yn agos at y sgrin daflunio (On, Off, Volume, HDMI a VGA). Wrth i chi ddewis y botwm 'ON' ar y rheolydd, bydd y sgrîn daflunio'n gostwng a bydd y taflunydd yn dechrau gweithio. Mae dolen sain yn yr ystafell.

Mae'r Stiwdio ar restr o leoliadau Arlwyo'r Campws a gallant gyflenwi lluniaeth yma.

I wirio a yw'r ystafell ar gael ac i'w neilltuo, ewch i @ https://swansea-uk.libcal.com/booking/TaliesinCreate

I drafod gofynion eich digwyddiad neu'ch gweithgaredd, cysylltwch â Swyddog Rhaglen Greadigrwydd Creu Taliesin, Reg Noyes: r.a.noyes@abertawe.ac.uk